Defnyddio Thesawrws

Y Drysorfa Eiriau

- Llyfr sy'n cynnwys geiriau cyfystyr a geiriau croes ydy **THESAWRWS**.

GEIRIAU CYFYSTYR – geiriau sy'n golygu'r un peth:

e.e. mae 'ffrwd ac afon' yn eiriau **cyfystyr** i '**nant**'

GEIRIAU CROES – geiriau sy'n golygu'r gwrthwyneb (hollol wahanol):

e.e. mae 'llonydd, digyffro' yn eiriau **croes** i '**aflonydd**'

DEFNYDDIWCH Y THESAWRWS:

- er mwyn gwella eich **GEIRFA**
- er mwyn dod o hyd i'r **UNION AIR**
- er mwyn dewis y **GAIR MWYAF ADDAS**

- Mae'r THESAWRWS CYMRAEG yn nhrefn yr wyddor.
- Er mwyn gweld yn union beth yw ystyr gair, defnyddiwch y THESAWRWS a GEIRIADUR CYMRAEG efo'i gilydd.
- Dydy bob gair a gynigir mewn THESAWRWS ddim yn addas bob amser, felly dewiswch yn ofalus.

Enghraifft o Thesawrws. *(CySill ar gyfer Prosesyddion Geiriau)*